**CYFARFOD Y CYNGOR** **17eg CHWEFROR 2016**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

## 2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod y Cyngor | - | 20fed Ionawr 2016 | - | Rhifau Cofnod 95-111 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 20fed Ionawr 2016 | - | Rhifau Cofnod 45-47 |
| Pwyllgor Cynllunio | - | 3ydd Chwefror 2016 | - | Rhifau Cofnod 48-50 |

I Gadarnhau neu fel arall:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol **(copi i ddilyn)** | - | 3ydd Chwefror 2016 | - | Rhifau Cofnod 73-? |

## 3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

## 4. 'NEWID SYNIAD POBL O'R RHYL'

Mewn perthynas â Chofnod rhif 101 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Ionawr 2016, croesawu i'r cyfarfod Ms Vicki Shenton-Morris o Gyngor Sir Ddinbych a Ms Heather Blundell o Weber Shandwick Manchester i dderbyn cyfwyniad mewn perthynas â'r fenter Newid Syniadau a gefnogir gan y Cyngor Tref.

## 5. CYFLWYNIAD GAN DÎM GORFODI CYNGOR SIR DDINBYCH

Mewn perthynas â chofnod rhif 57 cyfarfod y Cyngor a gyhaliwyd ar 16eg Medi 2015, croesawu i'r cyfarfod Mr. T. Wynne-Evans a derbyn cyflwyniad ar orfodi polisi sbwriel a baw cŵn y Cyngor Sir.

**6. COD YMDDYGIAD YR AELODAU – TREFNIADAU HUNAN-REOLEIDDIO ARFAETHEDIG**

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â mabwysiadu trefniadau hunan-reoleiddio ar gyfer toriadau lefel isel y Cod Ymddygiad a phenderfynu ar ymateb y Cyngor.

**7. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**8. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**10. SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU YR HEDDLU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif ??? cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**11. CYNLLUN TREF AC ARDAL Y RHYL**

Ystyried adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**12. SIOP CYNGOR AR FUDD-DALIADAU**

Ystyried adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig) a gohebiaeth gan y Siop Cyngor ar Fudd-daliadau (copi i ddilyn).

**13. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.